AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 226 Hydref – Tachwedd 2020

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Dechreuodd blwyddyn Fethodistaidd arall ar Fedi 1af ac mae'n bleser eich cyfarch chi yn rhifyn cyntaf y *Gwyliedydd* o'r flwyddyn newydd hon. Bendith Duw arnom ni wrth i ni geisio ei addoli a'i wasanaethu. Ar yr un pryd daliwn i ddysgu mwy amdano Ef a'i ffyrdd a rhannu'r Newyddion Da trwy air a gweithred. Fel y buasai'r pêl-droedwyr yn dweud, efallai, blwyddyn o ddau hanner oedd 2019-20, efo pandemig Covid-19 yn newid bywyd mewn cynifer o ffyrdd ers mis Mawrth. Ond, yng ngeiriau John Wesley ar ei wely angau, "Mae Duw gyda ni." Fydd Duw ddim yn ein gadael ni, byth.

Blwyddyn gyfundebol newydd, a thema flynyddol newydd i Synod Cymru. Buom yn gweithio trwy'r chwe thema a ddaeth i'r amlwg yn adolygiad bywyd y Synod a'r Gylchdaith a gynhaliwyd yn 2016-17. Y llynedd, fe wnaethon ni ganolbwyntio ar 'Estyn allan i'r gymuned'. Ym mis Gorffennaf eleni, dewisodd Pwyllgor Polisi'r Synod nid un, ond dwy, thema newydd i ni ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, sef 'Cyfathrebu' a 'Cydweithio'. Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn fod y themâu hyn yn mynd law yn llaw, yn ogystal â bod yn bwysig iawn yn ein cyd-destun presennol. Dros y ddwy flynedd nesaf, gobeithio y cawn ddatblygu'r ddwy thema ochr yn ochr â'i gilydd. Caiff pob aelod, pob capel, pob Ardal, y Gylchdaith a'r Synod benderfynu sut i roi'r themâu ar waith ond yn sicr mae cael thema neu themâu yn gymorth. Gobeithio, o dan arweiniad Duw, y parhawn i gael budd o ddilyn y drefn hon yn ein gwaith.

Mae cyfathrebu mor bwysig, ar lefel 'macro' a lefel 'micro'. Er bod gennym gynifer o ffyrdd heddiw i gysylltu â'n gilydd, o brint i'r ffôn a'r We, rydym yn dal i fethu cyfathrebu'n dda weithiau, ac o dro i dro cawn negeseuon dryslyd a chymysg. Mae hynny wedi bod yn wir ar brydiau am y newyddion a gawsom am Covid-19 a sut i ymateb i'r feirws. Gobeithio erbyn hyn ein bod i gyd yn deall yn glir beth y mae'n rhaid ei wneud er mwyn dod at ein gilydd unwaith eto yn ein capeli i addoli Duw gan gymryd pob rhagofal er mwyn cadw ein gilydd yn ddiogel. A ninnau bellach yn dod i arfer â gwisgo mwgwd mewn rhai mannau, mae rhywun yn sylweddoli o'r newydd fod cyfathrebu'n golygu llawer mwy na siarad yn unig – cyswllt llygaid, gwên, pa mor uchel yw'r llais ac ati. Mae'n gwneud i chi feddwl dwywaith am sut rydych chi'n cyfleu eich neges. Diolch i Dduw, doedd yna ddim ansicrwydd pan ddaeth atom ni yn Iesu i gyfathrebu ei gariad i ni: "A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith," meddai Ioan yn ei efengyl (1:14). "Mae Duw gyda ni"! Mae'n amhosib camddeall y neges honno, ac wrth i ni fod yn bresennol i'n gilydd, dyna sy'n cael ei gyfleu.

Mae cydweithio wedi bod yn amlwg iawn yn ystod y misoedd diwethaf hefyd, pan fu cynifer o bobl yn gwirfoddoli yn eu cymunedau lleol, a Christnogion a phobl o bob ffydd a dim ffydd a phob cefndir gwleidyddol yn gweithio gyda'i gilydd er lles pobl eraill. Wrth i ni i gyd 'aros adref' a golchi ein dwylo a chadw pellter o ddau fetr rhyngom ag eraill buom yn cydweithio er mwyn gofalu am ein gilydd. Mae profiad y pandemig wedi ysgogi llawer o Gristnogion i ystyried beth yw ewyllys Duw ar ein cyfer ni, ei bobl, o dan y 'normal newydd'. Yn sicr, fedr pethau ddim bod yr un fath ag o'r blaen, ac mae hyn, i lawer ohonom, yn golygu mwy o gydweithio ar draws yr enwadau a'r cymunedau ieithyddol. Nid yw Ysbryd Duw yn gweld ffiniau, ac ni ddylem ninnau, chwaith!

Gan na fu'n bosibl cynnal cyfarfod y Synod ym mis Ebrill, er mwyn penderfynu ein dyfodol – yn unol â'r wybodaeth a gafwyd yn rhifyn 224 (Ebrill-Mai) y *Gwyliedydd* – bydd cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ar-lein ar fore Sadwrn 7 Tachwedd i wneud y dasg bwysig hon. Mae Rheolau Sefydlog yr Eglwys Fethodistaidd wedi cael eu newid er mwyn i gyfarfodydd lle cynhelir pleidlais allu digwydd trwy'r dull hwn. Nid yw'n ddelfrydol ei wneud ar-lein, ond mae amser yn symud ymlaen o hyd, a dyma ein cyfle i wneud penderfyniad a gwybod sut rydym am gydweithio fel Synod er mwyn gweld gwaith a thystiolaeth yr Eglwys Fethodistaidd trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau. Mae'n debyg fod symbol yr iaith Tsieineaidd ar gyfer 'argyfwng' yn cynnwys symbolau 'perygl' a 'cyfle'! Gobeithio y byddwn yn achub y cyfle i gydweithio yng ngwasanaeth Duw. Pob bendith a nerth i chi ar ein taith.



# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 226**
**HYDREF – TACHWEDD 2020**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
2 TACHWEDD 2020

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Maksim Gorbunov





## Rhoddion

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Diolch yn arbennig i Is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd am eu cefnogaeth hael.

| | |
|---|---|
| Dienw | £50-00 |
| Aluna Lloyd Thomas, Llanfairpwll | £25-00 |
| Dafydd Rowlands, Llanfairpwll | £20-00 |
| June Cooper, Llanfairpwll | £15-00 |
| Mair Carrington Roberts, Llanfairpwll | £25-00 |
| Dwynwen Humphreys, Glantwymyn, Machynlleth, er cof annwyl am Arthur ei phriod | £10-00 |
| Ifor G Jones, Llanfairpwll | £10-00 |
| Alwyn ac Elizabeth Roberts, Llanfairpwll | £20-00 |
| Eirian Williams, Llanfairpwll | £20-00 |
| Margaret Lloyd, Llanfairpwll, er cof annwyl am ei rhieni y Parchg Tecwyn a Mrs Buddug Parry | £25-00 |
| Is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd | £400-00 |
| **Cyfanswm** | **£620-00** |

## Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain Casgliad Offrwm y Pasg

**Gan ein bod yng nghyfnod y cloi dros Ŵyl y Pasg, mae llawer ohonom heb gael cyfle i gyfrannu at Offrwm y Pasg. Os oes gan y trysoryddion lleol gyfle i gasglu'r amlenni, byddwn yn ddiolchgar os gallwch dalu'r arian i mewn i'r Banc yn y ffordd arferol a gyrru nodyn i'r Trysorydd, Manon Duffy, gyda manylion y casgliad yn eich Ardal erbyn diwedd mis Hydref. Cyfeiriad Manon yw 39 Highfield Park, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3NL.**




## Dymuniadau Gorau

**Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parchedig Gwynfor Williams. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well ac yn cryfhau yn fuan iawn. Gyda chofion atoch a phob dymuniad da hefyd i Mrs Williams, oddi wrth eich holl ffrindiau yn Synod Cymru.**

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Mewn ymateb i'r hyn a roddodd fod i fudiad **Mae Bywydau Du o Bwys** fe gafwyd erthygl gref yn un o bapurau bro'r Canolbarth, a oedd yn feirniadol iawn o'r cerfluniau sy'n bodoli i rai fel Picton ac Edward Colston. Gwelwyd bai hefyd ar yr enwadau am anfon cenhadon dramor ac arnom ni fel Cymry am amlygu 'hiliaeth gynhenid' wrth ganu'n groch ein hemynau am *gannu'r Ethiop* a meddwi ar *Draw draw yn China a thiroedd Japan*. Oherwydd honiadau'r colofnydd fe'm hysgogwyd i edrych eto ar ein hen lyfrau emynau enwadol a chwilio'n arbennig am yr emynau cenhadol sydd ynddynt. Diddorol felly oedd darganfod bod llyfrau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn rhestru yn eu mynegeion emynau a ddisgrifir fel rhai cenhadol ond nad ydynt yn ymddangos mewn unrhyw adran arbennig yn y llyfrau. Mae'r Caniedydd (1961) yn rhestru 32 emyn ond dim ond un sef rhif 370 sy'n cyfeirio at wledydd tramor. Cyfieithiad yw 370 o emyn Heber sy'n sôn am Greenland, India ac Affrig ond nid oes dim ynddo sy'n ymylu ar fod yn hiliol.



| 328 | Y WINLLAN |
|---|---|
| Ystadegau y Maes Tramor. | |
| Rhif y Cylchdeithiau ar y Maes | 387 |
| Rhif y Capelau a'r Ystafelloedd | 3,373 |
| Rhif y Cenhadon o Brydain .. | 284 |
| Rhif y Cenhadon Brodorol .. | 285 |
| Rhif y Cenhadesau .. .. | 68 |
| Rhif yr Athrawon a'r *Catechists* | 4,309 |
| Rhif y Pregethwyr Cynorthwyol ac Athrawon yr Ysgolion Sul .. .. | 10,399 |
| Rhif yr Aelodau Cyflawn .. | 104,397 |
| Ar Brawf am Aelodaeth .. | 24,905 |
| Rhif yr Ysgolorion .. .. | 145,303 |

| | £ | s. | c. |
|---|---|---|---|
| Y Swm a gasglwyd gan Blant y Tair Talaeth Gymreig .. | 689 | 0 | 11 |
| Cyfanswm y Tair Talaeth | 2,416 | 4 | 2 |
| Y Swm gasglwyd ar y Maes Tramor .. | 16,214 | 5 | 7 |
| Y Cyfanswm gasglwyd yn y Cylchdeithiau Cartrefol .. | 135,101 | 12 | 4 |
| Y diffyg ar ddiwedd y flwyddyn .. | 15,651 | 2 | 9 |
| | | s. | c. |
| Cyfartaledd y cyfraniad yn ol pob Aelod drwy'r Cyfundeb .. .. | | 5 | 8¼ |
| Cyfartaledd *per* aelod yn Nhalaeth York .. | | 8 | 5 |
| Cyfartaledd *per* aelod yn Nhalaeth Gyntaf Gogledd Cymru .. | | 2 | 2 |
| Yn Ail Dalaeth Gogledd Cymru .. .. | | 1 | 11 |
| Yn Nhalaeth y Dê .. .. | | 1 | 5 |

O'r Winllan, 1906

Dim ond 24 emyn cenhadol sydd yn y Llawlyfr Moliant Newydd (1956) ond mae cyfeiriad at India ac Asia yn rhif 93, yr Ethiopia yn 698, paganiaid duon yn 774, Israel yn 165 a Greenland, India a'r Affrig yn 332.

Mae'n rhaid troi at Lyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaid (1930) i weld adran wedi'i neilltuo i emynau cenhadol. Mae 37 emyn yn yr adran gyda deg ohonynt yn cyfeirio at wledydd tramor. Ceir dau emyn yn yr adran sy'n cynnwys gair na ellir ei ddefnyddio yma yn y *Gwyliedydd*. Fel mae'n digwydd Williams Pantycelyn yw awdur y ddau emyn. Er na fu Pantycelyn dramor mae ef fel sawl emynydd arall yn poeni am yr India, yr Aifft ac Ethiopia. Yn emyn 402 mae'n dweud '*O na ddoi ddydd yr India i ben*' tra yn yr ail bennill mae'n taro tant imperialaidd dros ben drwy ddyheu '*Boed Prydain Fawr yn fflam o dân / O gariad at ei Phrynwr glân.*' Dw i'n amau os canodd unrhyw un o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yr emyn hwn erioed.

Ond beth am y ddau emyn y bu canu croch arnynt yn y gorffennol. Nid oes sôn am *Iesu, cofia'r plant* yn llyfrau'r pedwar enwad. Hyd y gallaf weld, mae'n ymddangos yn gyntaf yng Nghaniedydd Newydd yr Ysgol Sul a gyhoeddwyd yn 1930 o dan nawdd yr Annibynwyr Cymraeg. W Nantlais Williams (1874-1959) yw'r awdur a hen alaw wedi'i threfnu gan y Dr Caradog Roberts (1878-1935) yw'r dôn. Mae'n ymddangos felly mai plant ysgolion Sul yr Annibynwyr oedd y cyntaf i ganu'r emyn hwn. Mae blas cyfnod ar y geiriau pan oedd yr ysgol Sul yn boblogaidd a dichon fod y dôn hithau wedi ychwanegu at y brwdfrydedd a fu unwaith wrth i blant o bob enwad gasglu at y Genhadaeth Dramor.

Mae'n amlwg y bu canu brwdfrydig ar emyn mawr Pantycelyn *Tyred Iesu i'r anialwch* sy'n sôn yn yr ail bennill am *olchi'r aflan, cannu'r Ethiop, / Gwneud yr euog brwnt yn lân*. Mae'r emyn yn y Caniedydd 472, y Llawlyfr Moliant 592 a'r Llyfr Emynau 612 gyda chyfeiriad yn y tri llyfr at *gannu'r Ethiop*. Diddorol er hynny yw sylwi nad oedd y golygyddion yn cynnwys yr emyn o dan y pennawd Emynau Cenhadol. Da yw gweld yr emyn yn *Caneuon Ffydd* 730 a bod y golygyddion wedi trwsio a gwella'r emyn drwy newid y geiriau tramgwyddus i *olchi'r aflan, cannu'r duaf / gwneud yr euog brwnt yn lân.*

Rwyf yn cytuno i raddau â'r farn mai'r Beibl, y lejar a'r gwn, chwedl Gwenallt, a ddefnyddid gan Brydain Fawr i "wareiddio" sawl gwlad. Ond a ellir dweud gyda sicrwydd bod pob un o'r cenhadon yn rhannu'r dyhead Prydeinig hwn? Sêl grefyddol a dyhead i ddilyn comisiwn Iesu a gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd oedd y sbardun i lawer. Byddai'n rhaid wrth astudiaeth fanwl a diduedd i benderfynu beth a ysgogodd genhadon fel Evan Evans Carno, John Davies Tahiti, Thomas Jones India, Jacob Davies Ceylon a David Jehu Sierra Leone i fentro mor bell o'u mamwlad. Beth bynnag yw'n barn heddiw ynglŷn â dilysrwydd y genhadaeth, teg dweud mai pobl ymroddedig a dewr oedd y rhain gyda'u golwg ar ledaeniad teyrnas Iesu Grist yn brif nod iddynt. Erys y ffaith er hynny y bu cydredeg gyda'r lejar a'r gwn yn fenter beryglus a dweud y lleiaf. Dyma rybudd y dylai'r Eglwys Gristnogol fod yn ymwybodol iawn ohono yn ein dyddiau ni hefyd.

# Y diweddar Barchedig Gwyn C. Thomas

## Coffâd gan W. Arvon Roberts, Pwllheli

Gydag ymdeimlad o golled dwys y torrwyd y newydd trist am farwolaeth Gwyn, ar yr aelwyd yn Nhrem y Wyddfa, Penrhyndeudraeth ar Orffennaf 20fed eleni, ar ôl brwydr galed yn erbyn afiechyd. Mae'n fraint ac yn anrhydedd bersonol i mi gael y cyfle i dalu teyrnged iddo.

Brodor o Drawsfynydd oedd Gwyn, lle y'i ganwyd yn 1936 yn fab i William a Grace Owen Thomas ac yn frawd i Margaret. Gyrrwr trên oedd ei dad, gŵr o argyhoeddiadau cryfion ac aelod gyda'r Methodistiaid. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth cymeradwy fel pregethwr cynorthwyol yn y gwahanol ardaloedd y bu'r teulu'n byw ynddynt. Derbyniodd Gwyn ei addysg yn Ysgol Ramadeg Pwllheli a'r Coleg Normal, Bangor. Ar ôl gadael y coleg bu'n athro yng Ngwersyllt, ger Wrecsam, ac yna yn brifathro yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog a Llanfynydd, Sir y Fflint. Priododd ag Ann Elizabeth Griffith o Ddyffryn Aeron, Ceredigion yn 1961; buont yn ddedwydd anghyffredin a dod yn rhieni cariadus i Guto a Catrin.

Y cof cyntaf sydd gennyf am Gwyn oedd yn Ionawr 1990 pan ymatebodd i hysbyseb am gynorthwywr bugeiliol i wasanaethu eglwysi Bro Madog a Blaenau Ffestiniog, sef pump o eglwysi a 233 o aelodau. Llawenydd mawr oedd cael ysgrifennu ato i ddweud inni fel Cylchdaith dderbyn ei gais yn unfrydol. Dechreuodd ar ei swydd yn Rhagfyr 1990 ac yn fuan iawn enillodd serch pawb drwy'r cylch. Cwblhaodd astudiaethau ym Mangor ac fe'i hordeiniwyd yn Synod y Gwanwyn, 1993, yn y Tabernacl, Penrhyndeudraeth, oedfa fythgofiadwy ac un y cefais ran ynddi.

Oherwydd gwaeledd ei briod, gorfodwyd Gwyn i ymddeol o'r weinidogaeth yn 1996, er mawr siom i ni i gyd. Symudodd y ddau i Dalysarn, Arfon yn y flwyddyn 2000 am ychydig o seibiant. Ond ymhen ychydig amser ar ôl 2001 daeth Gwyn yn ei ôl i gydweithio â'r diweddar Barchedig R. Glyn Williams, Pwllheli. Er i hwn fod yn gyfnod mor anodd, pan fu i Ann wynebu cyfnod hir o waeledd blin, parhaodd Gwyn i wasanaethu'r eglwysi hyd eithaf ei allu. Bu Ann farw yn 2005, yn 67 mlwydd oed. Cofir gan lu ohonom am ei sirioldeb, ei hurddas a'i boneddigrwydd naturiol hyd y diwedd ac am ei chyfraniad teilwng iawn fel gwraig gweinidog. Yna yn 2007, er mawr lawenydd i bawb, daeth Gwyn i fyw i'r mans ym Mhwllheli a chawsom ei wasanaeth eto am rai blynyddoedd.



Roedd Gwyn yn ddarllenwr brwd a byddai'n amsugno gwybodaeth. Mwynhâi farddoniaeth Gymraeg. Ar hyd ei oes bu'n dilyn un o'i hoff chwaraeon sef pêl-droed – a'i ymlyniad wrth ambell dîm yn ddiarhebol! Erys y cof personol yn fyw ac yn felys am y gŵr rhadlon hwn, am ei bregethau coeth, difyr a'i fynych gymwynasau. Hynawsedd ac addfwynder oedd rhinweddau mawr ei fywyd. Bu'n gyfaill gwir a diddan a bu ei air caredig, calonogol, ei groeso a'i gwmnïaeth felys yn foddion gras i mi yn ystod blynyddoedd fy adnabyddiaeth ohono, fel i lawer.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Guto a Catrin a'u teuluoedd ac â Margaret ei chwaer yn eu colled fawr. Duw fo'n agos atynt a'u bendithio.



## Gweithredu dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

- Plas Cadno £115.00
- Salem, Pentre Helygain £40.00
- Pendref, Yr Wyddgrug £50.00
- Eglwys Gymraeg St Paul, Aberystwyth £25.00
- Ebeneser, Treuddyn £20.00
- Eluned Williams (Apêl Argyfwng) £100.00
- Ffion Rowlinson (Apêl Argyfwng) £50.00
- Eglwys Fethodistaidd Unedig Colwyn £150.00
- Rhoddion er cof am Kathleen M Owen £485.00

Anfonwyd cyfanswm o £1,035.00 yn enw Synod Cymru. Diolchwn am bob cyfraniad.

*Casgliad Anrhegion Nadolig*:
Yn wyneb y ffaith fod yr eglwysi wedi bod ar gau yn sgil Covid-19, a nifer yn dal heb agor, a bod gweithwyr yr elusen wedi bod ar ffyrlo a heb ailafael yn llawn yn eu gwaith eto, nid yw'n ymddangos y gallwn gynnal ein casgliad blynyddol o anrhegion i'r prosiectau adeg y Nadolig. Mawr obeithiwn y gellir cynnal casgliad unwaith eto y flwyddyn nesaf. Cofiwch ei bod yn dal yn bosib cyfrannu'n ariannol i Gweithredu dros Blant adeg y Nadolig. Gyda diolch a phob bendith,

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

☎ 01978 756717 ✉ cwrteden@gmail.com

# Capel Ni

## yn Eglwys Iesu

### Ebeneser, Eglwysbach



**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau i Peter a Nancy Roberts ar ddathlu pen-blwydd priodas arbennig iawn ar 4 Gorffennaf. Priodwyd y ddau yn Ebeneser yn 1970.

**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYDYMDEIMLO**
Rydym fel Eglwys yn cydymdeimlo â Mrs Eirwen Jones yn ei phrofedigaeth o golli brawd annwyl iawn, sef Mr Robert Gwilym Thomas o Fetws yn Rhos, tad Nia a Gary a thaid Elin ac Anna. Roedd Bob wrth ei fodd yn dod i Breswylfa cyn i'w iechyd ei rwystro. Cydymdeimlwn yn fawr â chi i gyd – yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich profedigaeth.

**LLONGYFARCHIADAU**
Mae'n braf iawn cael llongyfarch Mia Sara, merch Bethan ac Elwyn, ar ei chanlyniadau Lefel A ardderchog. Da iawn chdi a dal ati. Pob dymuniad da i ti ym Mhrifysgol Caer. Mae Cai, mab Carys a'r diweddar Paul, hefyd wedi cael canlyniadau arbennig yng Ngholeg Glynllifon, gan dderbyn yr anrhydedd o fod yn fyfyriwr gorau'r flwyddyn gyda'r cwrs coedwigaeth. Dal ati a phob dymuniad da i'r dyfodol. Rydym fel Eglwys yn llongyfarch y ddau ohonoch.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at holl aelodau Preswylfa yn ystod yr amser anodd yma. Diolch i S4C a Radio Cymru am yr oedfaon yr ydym wedi eu cael ac wedi eu mwynhau yn fawr iawn.

**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

### Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Hyfryd yw cael newyddion da yn y cyfnod anodd presennol. Llongyfarchiadau calonnog i Audrey ar enedigaeth gor-ŵyr a gor-wyres: Betsan ac Emyr wedi cael merch, Magi Emyr, a Glesni a Siôn yn Llanfair Dyffryn Clwyd wedi cael mab, Cai Llewelyn. Dymuniadau gorau i Clwyd ac Eleri ar ddod yn daid a nain. Pob dymuniad da i chi fel teuluoedd.

Cofion cynhesaf oddi wrthym fel Ardal i'r Parchedig Cledwyn Parry, a fu'n arolygwr Cylchdaith Bathafarn yn ystod yr wythdegau. Da oedd deall iddo ddathlu saith deg mlynedd yn y weinidogaeth. Pob bendith.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at deuluoedd y diweddar Barchedig Gwyn Thomas a'r diweddar Barchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts. Rhoddwyd blynyddoedd lawer o wasanaeth clodwiw ganddynt a bydd y chwithdod yn fawr iawn. Meddyliwn amdanoch fel teuluoedd.

**EISTEDDFOD 2020**
Bu'n rhyfedd iawn heb yr Eisteddfod Genedlaethol arferol eleni, er y bu llawer o ddigwyddiadau ar-lein. Gwn fy mod yn dangos fy oed drwy ddweud imi gael blas arbennig ar raglenni o Eisteddfodau a fu! Un o'm hoff rai oedd y rhaglen am Ysgoloriaeth Towyn Roberts. Rhoddwyd yr ysgoloriaeth wrth gwrs er cof am ei briod, Violet, sef merch Pengraig, Llanelidan. Roedd teulu Pengraig yn ffrindiau â'n teulu ni, ac yn gyd-aelodau yn hen gapel Wesle Llanelidan. Roedd cyswllt teuluol hefyd – hen nain Violet oedd Elizabeth, Caerddinen (yr un enw â minnau!), chwaer i fy hen daid, David. Byddai Nain Caerddinen yn disgrifio Violet yn rhedeg o gwmpas y cae i ymarfer yr anadlu cyn cystadlu am y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod. Pan fyddai Violet a Towyn Roberts yn dod i oedfa, mae'n debyg y byddai rhai o'r gynulleidfa, o'u clywed yn canu, yn tawelu er mwyn cael gwrando!

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES




**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Mali Beech, merch Roger a Nikki ac wyres i Meta, ar lwyddiant ardderchog yn ei Lefel A. Pob dymuniad da i ti, Mali, wrth iti ddechrau ar dy gwrs yn astudio Economeg ym Mhrifysgol Lerpwl.

### Salem, Rhyd y Foel

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau i Gwenno Fflur Blythin sydd wedi ei phenodi i swydd newydd yn yr ysgol Brydeinig ym Milan. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**BABI NEWYDD**
Llawenydd mawr yw cael llongyfarch Dennis a Menna McBreeze, Ystrad, ar enedigaeth gor-wyres sef Dwysan, chwaer fach i Mared.

**LLONGYFARCHIADAU**
Cafodd Beth Megan Roberts ganlyniadau TGAU rhagorol a dymunwn bob llwyddiant iddi hi ym mlwyddyn 12 yn Ysgol y Creuddyn.

**NEWID YSGOL**
Dymuniadau gorau i Cadi Mai Pegg wrth iddi symud o Ysgol Betws yn Rhos i Ysgol y Creuddyn ym mis Medi.

**PROFEDIGAETHAU**
Daeth profedigaeth i ran Kathleen Williams yn ystod y cyfnod clo, ym marwolaeth ei chwaer yn 99 oed sef Mrs Margaret Ann Jones o Gilgwri. Tristwch mawr nad oedd yn bosib i Kathleen fynychu'r angladd i dalu'r deyrnged olaf i'w chwaer oherwydd y cyfyngiadau.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o aelodau Horeb, Betws yn Rhos a chyfaill annwyl a ffyddlon iawn i ni yn Salem sef Mr Robert Gwilym Thomas (Bob), Hen Golwyn, gynt o Bryncar, Betws yn Rhos. Roedd ei ddiweddar briod, Mehefin, yn ffyddlon iawn i'r achos yn Horeb ac yn organydd yno. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Arwel a Karen, Nia a Gary a'r teulu oll yn eu colled.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Ebeneser, Dolgellau

**CYFNOD CLO**
Er ein bod wedi bod ar wahân am fisoedd, rydym wedi paratoi gwasanaeth wythnosol ers y cychwyn ac yn parhau i wneud. Bu rhai yn cyd-addoli drwy gyfrwng Zoom; eraill yn dewis dilyn yr adnoddau yn dawel yn eu cartrefi. Aeth llythyr cyfarch allan gyda'r adnoddau ac roedd hefyd yn gyfle i rannu newyddion am hynt a helynt yr Ardal. Diolchwn i Dduw am y cyfleoedd i gyfathrebu drwy'r cyfryngau. Yn ogystal â hyn cafodd pob aelod/ ffrind alwad ffôn wythnosol. Hyfryd gwybod fod un o'r aelodau Saesneg, sef Andrea, wedi dysgu Gweddi'r Arglwydd yn Gymraeg yn ystod y cyfnod clo.

**CYDYMDEIMLO**
Mae amryw o'n haelodau wedi cael profedigaethau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae colli anwyliaid bob amser yn dristwch, ond mae eu colli dan yr amgylchiadau presennol yn fwy anodd nag arfer, gan fod cael eu gweld a'u hymgeleddu wedi bod yn amhosib i'r rhan fwyaf, a chynebryngau yn gorfod bod yn gyfyngedig i niferoedd bach. Anfonwn ein cydymdeimlad at Elizabeth Griffiths a Dee Golden, y ddwy wedi colli brawd; at Alan Woodbridge a Bryngwyn Thomas sydd wedi colli mam ac Angela Roe a gollodd ewythr. Daeth newyddion ym mis Mai am farwolaeth un o'n cyn-aelodau, sef Mrs Sheila Jones, a hithau'n 90 oed. Roedd wedi symud i Worthing i fyw ers sawl blwyddyn. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei merch Kay a'r holl deulu.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mrs Doreen Thomas ar enedigaeth gor-wyres, Leusa Aran, ail ferch i Carys a Geraint yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau hefyd i Emyr ac Anona Roberts ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau i Emily, merch Stephen ac Angela Roe, sydd wedi graddio eleni a hefyd wedi sicrhau swydd yn Sheffield gan ddechrau ym mis Medi. Pob dymuniad da, Emily.

**GWELLHAD**
Rydym yn falch iawn o wybod bod Mared, wyres Jane a Bryngwyn, yn gwella yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



## Bethel, Amlwch

**COLLEDION**
Bu farw Edward Jones (Ted) yn ddisymwth ychydig yn ôl. Roedd yn gymeriad cymeradwy iawn a gweithgar yn y capel. Ef fyddai'n cyfarch yr addolwyr wrth y fynedfa ar fore Sul. Bydd ei golli'n fawr cans ef oedd un o aelodau ieuengaf y capel. Hefyd, bu farw Marjorie Pritchard mewn oedran teg. Bu'n preswylio yng Nghanolfan Fairways, Bae Trearddur ers blynyddoedd. Hi oedd un o aelodau hynaf y capel. Cydymdeimlwn yn gywir â'r teuluoedd hyn. Colled arall yw methu



â mynychu'r oedfaon bore Sul. Anfonwn ein cyfarchion at holl aelodau'r Ardal gan obeithio medru dychwelyd yn fuan ar ôl i'r aflwydd farw o'r tir.

**GOHEBYDD .** LEN THOMAS

## St Paul, Aberystwyth

**FFARWEL**
Daeth cyfnod y Parchedig Roger Hides yng Ngheredigion i ben ym mis Awst. Bu'n Arolygwr Cylchdaith Saesneg Ceredigion er 2013. Gan iddo ddysgu Cymraeg roedd hefyd yn gwasanaethu'n gyson i'r gynulleidfa Gymraeg yn Aberystwyth a'r cynulleidfaoedd eraill yn Ardal Ceredigion, sef Cnwch Coch ac Ystumtuen. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei gymorth a'i gefnogaeth dros y blynyddoedd. Gyda'i wraig, y Diacon Sara Windsor-Hides, gwasanaethodd am y tro olaf mewn oedfa ddwyieithog ar YouTube ar fore Sul 19 Gorffennaf. Dymunwn yn dda iawn iddynt dros y ffin yn Nhrefyclo.

**DATBLYGIADAU**
Oherwydd y defnydd trwm gan yr aelodau a'r grwpiau a chymdeithasau sy'n llogi'r adeilad penderfynwyd bod angen cegin newydd yn y Ganolfan. Dechreuwyd ar y gwaith o dynnu'r hen gegin a rhoi'r un newydd i mewn yn ystod mis Awst. Yn dilyn hynny bydd yn rhaid ymgymryd â gwaith arall angenrheidiol cyn i'r adeilad gael ei ddefnyddio eto. Oherwydd hyn i gyd penderfynodd Grŵp Rheoli'r Ganolfan na fydd modd ailagor yr adeilad cyn dechrau mis Tachwedd.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

## Pendref, Dinbych

**AILAGOR Y CAPEL**
Yn ystod y misoedd anodd a aeth heibio, rydym fel aelodau wedi colli'r oedfaon, y gwmnïaeth a'r cymdeithasu. Er hynny, rydym yn hynod o ddiolchgar i'r Parchedig Ddr Trevor Hoggard am ei lythyrau bugeiliol wythnosol oedd yn ein galluogi, gan fod y rhan fwyaf o'r aelodau ar e-bost, i gadw mewn cysylltiad.

Erbyn hyn derbyniwyd cadarnhad fod modd ailagor ein capeli, ynghyd â chanllawiau i'w dilyn. Barn gyffredinol aelodau Pendref oedd y dylid ailagor ar yr ail Sul yn Medi, gyda'r gwasanaeth o dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd, hithau wedi bod yn gefnogol iawn i'n cynllun i ailagor. Llawenydd o'r mwyaf yw cael cydaddoli unwaith eto.

Yn anffodus ni chynhaliwyd ein ffair wanwyn ym mis Mai ac ni fyddwn yn cynnal ein ffair Hydref arferol oherwydd y pandemig presennol.

**GOFALU AM YR ADEILAD**
Mae'r gwaith o drwsio un o waliau'r Festri fawr, er yr holl rwystradau, bellach wedi ei gwblhau. Y cam nesaf dros yr wythnosau sydd i ddod fydd paentio, glanhau a thacluso.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Mair Rees sydd yn Inffyrmari Dinbych yn dilyn damwain ac anafiadau i'w choes.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Pendref, Yr Wyddgrug

**PEN-BLWYDD PRIODAS**
Llongyfarchiadau calonnog i'r Parchedig J. Bryn Jones a Mrs Vera Jones ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol. Yn anffodus o dan y cyfyngiadau presennol ni fu modd cynnal dathliadau llawn.

**DIOLCH**
Rydym fel aelodau Pendref yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig Marc Morgan a'i briod Margaret am baratoi a dosbarthu gwasanaeth bob Sul inni, ers cychwyn y cyfyngiadau ym mis Mawrth. Mae ein dyled iddynt fel Eglwys ac Ardal Glannau Maelor yn fawr iawn.

**GOHEBYDD .** RICHARD FRANCIS JONES

# Dechrau Blwyddyn

## *gan Delyth Wyn Davies*

Ar ddechrau blwyddyn gyfundebol newydd daw'r cyfle unwaith eto i ni ystyried ein gweledigaeth a'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yma yng Nghymru ac fel rhan o'r Cyfundeb.

Yn ystod cyfarfod o Bwyllgor Polisi Synod Cymru penderfynwyd mabwysiadu'r themâu Cyfathrebu a Chydweithio i ganolbwyntio arnynt ym mywyd a gwaith capeli Synod Cymru am y ddwy flynedd nesaf. Teimlwyd bod y ddwy thema yn mynd gyda'i gilydd ac ni ellir gweithredu'r naill heb y llall. Yn ystod y misoedd diwethaf rydym eisoes wedi cael y profiad o ddatblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu a chydweithio yn wyneb ymbellhau cymdeithasol yn sgil Covid-19 trwy i bobl gysylltu â'i gilydd dros y ffôn ac wrth gynnal addoliad, pwyllgorau a hyfforddiant ar-lein. Cofiwch fod aelodau o dîm y Rhwydwaith Dysgu Cymru yma i'ch cefnogi wrth ddatblygu'r agweddau hyn.

Y prif bwyslais o du'r Cyfundeb ar gyfer y flwyddyn gyfundebol newydd yw'r Ffordd Fethodistaidd o Fyw (www.methodist.org.uk/our-faith/life-and-faith/a-methodist-way-of-life). Pwyslais ar ffordd o fyw mewn ymateb i gariad Duw a rannwyd â ni yn Iesu sydd yma. Fel y Cristnogion cynnar yn Actau 2.42-47, anogir Methodistiaid heddiw i geisio mynegi'r hyn y mae'n ei olygu i ddilyn Iesu yn eu ffyrdd o addoli, dysgu a gofalu, gwasanaeth ac efengylu. Mewn gwirionedd, mae'r Ffordd Fethodistaidd o Fyw yn newydd a hefyd yn hen. Mae'n newydd, yn yr ystyr ei bod wedi'i thrafod gyntaf yng Nghynhadledd 2018, er ei bod yn seiliedig ar Ein Galwad, cynllun y cytunwyd arno yn 2000. Cafodd hynny, yn ei dro, ei adeiladu ar yr hyn y mae Methodistiaid wedi'i wneud erioed, ers dyddiau John Wesley, wrth geisio dilyn Iesu a byw allan y ffydd Gristnogol – yn union fel y gwnaeth y dilynwyr cyntaf hynny yn Llyfr yr Actau.

Hyd yma mae'r Cyfundeb wedi cynhyrchu cerdyn ymrwymiad i gychwyn y broses o ymgysylltu â hyn. Mae'n seiliedig ar themâu Ein Galwad sy'n gyfarwydd i aelodau yn Synod Cymru gan i ni eisoes ganolbwyntio ar y pedair thema yn eu tro. Bydd aelodau o gapeli Synod Cymru wedi derbyn copi o'r cerdyn ymrwymiad sydd yn cynnwys 12 datganiad ymrwymo ynghyd â chwestiynau trafod gyda'u harwydd aelodaeth 2020-2021. Mae cyfieithiad Cymraeg i'w gael ar y wefan a gellir ei lawrlwytho a'i argraffu, a'i ddosbarthu trwy e-bost neu mewn print.

Yr hyn sy'n sefyll allan yn y Ffordd Fethodistaidd o Fyw yw natur gydweithredol yr ymrwymiadau – sylwch ar y gair 'byddwn' ar ddechrau pob datganiad a'r anogaeth i drafod y cwestiynau gyda'n gilydd ac i gefnogi'n gilydd wrth ymrwymo i'r Ffordd Fethodistaidd o Fyw. Er mai fel unigolion y byddwn yn ymrwymo, byddwn yn ei wneud fel un corff, sy'n awgrymu atebolrwydd i'n gilydd yn ogystal ag i Dduw. A dyna ni'n ôl ble dechreuon ni, gyda themâu'r Synod – Cyfathrebu a Chydweithio – a fydd yn ategu'r cyfan. Bydd gweithredu'r Ffordd Fethodistaidd o Fyw yn ddibynnol ar ein parodrwydd i glosio at ein gilydd, i siarad gyda'n gilydd, i weddïo dros ein gilydd ac i gefnogi'n gilydd wrth weithredu'n ymarferol.

Cynhelir sesiwn arlein (trwy Zoom) ar fore Iau 22 Hydref am 10.30yb-12yp i drafod y Ffordd Fethodistaidd o Fyw i weinidogion, arweinyddion ardal, pregethwyr lleol ac unrhyw un arall sydd am wybod mwy. Yna rhoddir anogaeth i ardaloedd a chapeli i gynnal sesiynau tebyg yn lleol mewn modd addas yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## *cartŵn*






# Ffordd **Fethodistaidd** o Fyw

**Ein galwad yn yr Eglwys Fethodistaidd yw ymateb i efengyl cariad Duw yng Nghrist. Addoli a chenhadu fydd yn nodweddu ein bywyd fel disgyblion i Iesu Grist.**

Hyd eithaf ein gallu, a thrwy gymorth Duw:

## Addoli

- Byddwn yn gweddïo bob dydd.
- Byddwn yn cyd-addoli yn rheolaidd.
- Byddwn yn ceisio Duw ac yn canolbwyntio arno, yn yr Ysgrythur ac yn y byd.

## Dysgu a Gofalu

- Byddwn yn gofalu amdanom ein hunain ac am y bobl o'n cwmpas.
- Byddwn yn dysgu mwy am ein ffydd.
- Byddwn yn arfer lletygarwch a haelioni.

## Gwasanaethu

- Byddwn yn helpu pobl yn ein cymunedau a thu hwnt.
- Byddwn yn gofalu am y greadigaeth a holl roddion Duw.
- Byddwn yn herio anghyfiawnder.

## Efengylu

- Byddwn yn sôn am gariad Duw.
- Byddwn yn byw mewn ffordd sydd yn denu eraill at yr Iesu.
- Byddwn yn rhannu ein ffydd ag eraill.

**Boed i ni fod yn gyfrwng bendith, oddi mewn i Eglwys Dduw a thu hwnt, er mwyn trawsnewid y byd.**

# Capel Ni

## yn Eglwys Iesu

### *Bethel, Prestatyn*

**AILAGOR**
Mae'n amser hir ers inni allu cyd-addoli yn y capel ac mae'n chwith meddwl fod drysau'r capel wedi bod ar gau ers dechrau Mawrth. Mae ambell un ohonom wedi bod yn cadw golwg ar yr adeilad – y tu mewn a'r tu allan – i wneud yn siŵr fod y lle yn barod i ailagor.

Pan ddaeth cyhoeddiad Mark Drakeford eu bod yn barod i addoldai ailagor yng Nghymru, roeddem yn edrych ymlaen at allu cynnig Gweddi Breifat ac yna gwasanaethau yn fuan. Rhaid oedd aros, fodd bynnag, tan ar ôl derbyn a gweithredu cyfarwyddyd yr Eglwys Fethodistaidd mewn perthynas â sicrhau diogelwch – a'r adeg gynharaf yr oedd yn bosibl cynnal oedfa oedd Medi 6ed. Bydd ein haddoliad yn wahanol iawn gan na fydd canu emynau, adrodd Gweddi'r Arglwydd na defnydd o'r organ ond rydym yn gweld hyn fel sialens newydd i'n dull o addoli.

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau am eu cyfraniadau ariannol er nad oeddem yn derbyn casgliadau wythnosol. Hoffem ddiolch hefyd i bawb sydd wedi bod yn helpu eu cyd-aelodau yn ystod yr hunanynysu – yn ffonio am sgwrs, siopa a rhannu'r Cylchlythyr a chopïau o'r gwasanaethau a baratowyd gan ein bugail y Parchedig Brian Huw Jones. Roeddem i gyd yn ddiolchgar iawn am y negeseuon e-bost a ddaeth gan Delyth, y Parchedig Marc Morgan ac eraill, ac am y gwasanaethau oedd ar gael ar y We.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at Eiry sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty ond yn falch o ddweud ei bod yn llawer gwell erbyn hyn. Hefyd, mae Lili Medi wedi bod yn Ysbyty Alder Hey ar dri achlysur ond yn falch o fod adref gyda'i chwiorydd erbyn hyn. Diolch i'n holl ffrindiau sydd wedi bod yn ffonio yn holi amdani ac yn gweddïo drosti. Cofion arbennig i Joan Bartley, gwraig Gwyn, sydd wedi bod yn bur wael. Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn gaeth yn eu cartref – mae wedi bod yn amser anodd. Un peth ddaru ni sylwi wrth ffonio a galw gyda thaflen y Gwasanaeth i'r aelodau mwy bregus oedd pa mor ddi-gŵyn oedd pawb.

**CYDYMDEIMLO**
Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Islwyn Thomas, Trelawnyd. Anfonwn ein cydymdeimlad i'r teulu. Hefyd, roedd yn drist clywed am farwolaeth Mrs Beti Wyn Jones ar ôl cyfnod hir o waeledd. Anfonwn ein cydymdeimlad at Neville a'r teulu yn eu galar.

**CYFARCHION**
Dyma ychydig eiriau gan y Parchedig. Brian Huw Jones, i gyfarch aelodau Bethel ynghyd â holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd*:-

"Wedi bron i bum mis rydym yn parhau i ynysu a chadw pellter er fod peth llacio bellach ar y rheolau yma yng Nghymru a chapeli yn cael agor. Er fod ein

## TEULUOEDD IFANC BETHEL

Mae hi wedi bod yn amser prysur i'r rhieni gyda'r plant adref bob dydd. Mae llawer ohonynt wedi bod yn addysgu'r plant adref ac yn eu helpu i gwblhau eu gwaith ysgol tra yn gweithio o gartref eu hunain.

Mae Palmer, Marley a Willow wedi cael digon o amser i chwarae gyda'i gilydd, a'r tri ohonynt wedi tyfu a datblygu llawer. Dathlodd Palmer ei ben-blwydd yn dair oed ddiwedd mis Awst, a'r efeilliaid eu pen-blwydd yn un.





Bu Alaw ac Ifan yn dilyn eu haddysg gartref dan ofal Daniel, a oedd yn aros gartref nes i fwytai gael ailagor. Yn y cyfamser parhaodd Mari eu mam i weithio ym manc y NatWest gan gymryd gofal mawr, wrth reswm. Bu Alaw ac Ifan yn gwneud llawer o bobi a chreu ffyj a chael hwyl yn chwarae gemau hefo'i gilydd. Gan fod Alaw yn dechrau yn yr ysgol uwchradd y mis Medi hwn, bu wrthi'n brysur yn paratoi, hefyd.



Wedi treulio bron i fis yn yr ysbyty ym mis Ebrill a thri diwrnod ym mis Gorffennaf a hefyd ym mis Awst, rydym mor ddiolchgar fod Lili yn well ac yn gallu bod adref gydag Alys a Beth. Mae hi wedi bod mor ddewr. Dyma nhw yn mwynhau'r tywydd braf.

hadeiladau wedi bod ar gau mae'r Eglwys yn fyw. Rhaid i ni beidio ag anobeithio a digalonni. Cofiwn mai y Crist byw atgyfodedig ydy'r Un yr ydym ni yn ei addoli. Mae o yna gyda ni, yn ein harwain ar y blaen, yn cerdded gyda ni ar y daith ac o'r tu cefn i ni i'n cario ni a'n hannog ymlaen. 'Myfi a fyddaf gyda chwi hyd ddiwedd y byd'.

Mae yna gyfle i ni ynghanol yr ansicrwydd, yr ofn a'r ynysu i aros gyda Christ mewn gair a gweddi. Mae yn rhoi nerth a chynhaliaeth i ni wrth i ni geisio ymdopi yn y dyddiau anodd, ansicr hyn yr ydym ynddynt oherwydd y Covid-19. Parhau mae'r ansicrwydd, yr ymdeimlad yna o fod yn unig weithiau ac ar adegau eraill yn bryderus. Eto i gyd, er yr holl amrywiaeth o deimladau, mae Un sydd yn gadarn a digyfnewid sef Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwaredwr byw. Hebddo nid oes gobaith i'r ddynolryw. Ef yw ein tarian a'n hamddiffynfa gadarn. Parhawn i roi ein ffydd a'n hymddiriedaeth ynddo: 'Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, credwch yn Nuw a chredwch ynof finnau'. Bydded i ninnau dderbyn o'i dangnefedd Ef, y tangnefedd mewnol hwnnw na ŵyr y byd amdano.

Parhawn i ofalu am ein gilydd, gan gadw mewn cysylltiad hyd nes y cawn gyfarfod unwaith eto i gyd-addoli."

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Ebeneser, Trefor, Môn*


**CYDYMDEIMLO**
Bu farw Mared Thomas Foulkes yn sydyn ac yn annisgwyl ym mis Gorffennaf a hithau ond yn 21 oed. Roedd yn ferch annwyl i Glyngwyn ac Iona ac yn chwaer i Arwyn. Roedd Mared ar ganol cwrs Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a gyda dyfodol disglair o'i blaen. Cafodd y teulu brofedigaeth arall yn ogystal yn ystod mis Awst pan fu farw mam Glyngwyn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Glyngwyn, Iona ac Arwyn a'r teulu i gyd.

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS



Mae Noa a Casi yn byw yn agos i lan y môr ac wrth eu boddau'n mynd yno i chwarae. Maen nhw hefyd yn hoffi mynd am dro ar eu sgwteri neu gyda'r dolis a'r pram. Maen nhw'n hapus iawn fod y sw wedi ailagor yn awr er mwyn iddynt gael mynd i weld yr anifeiliaid unwaith eto!

Hoffem ddymuno pob hwyl i Emelia, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 12 oed.





Mae Joseff, Arthur a Rhiannon yn ddigon ffodus i fyw o fewn 10 munud i lan y môr a chawsant lawer o hwyl yn chwarae yn y tywod yn ogystal â chwarae yn yr ardd a gwneud cacennau.

## *Ebeneser, Treuddyn*

**ADNODDAU BENDITHIOL**
Wrth i'r Gwyliedydd fynd i'r wasg, nid ydym eto'n gwybod pryd fydd y capel yn ailagor ar gyfer gwasanaethau. Er gwaethaf anawsterau Covid-19, rydym yn ddiolchgar dros ben i'n gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a hefyd i'r Parchedig Marc Morgan, Arweinydd Ardal Glannau Maelor, am y gwasanaethau y maent yn eu paratoi ar ein cyfer bob Sul trwy gyfrwng y we. Mae'r rhain wedi bod yn adnodd bendithiol iawn i aelodau a ffrindiau'r capel. Rydym hefyd wedi bod yn ddiolchgar iawn am raglenni ar y radio a theledu ac am allu gwrando ar wasanaethau fel Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol.

**COFION**
Anfonwn ein cofion gorau at ein holl aelodau a chyfeillion yn yr ardal gan ddymuno iechyd da iddynt i gyd yn ystod y cyfnod anodd hwn. Parhawn i obeithio y gwelwn ddyddiau gwell ac y bydd y feirws yma'n diflannu'n llwyr maes o law. Daliwn ati i ddilyn y canllawiau diogelwch er mwyn peidio â phasio'r feirws ymlaen o berson i berson.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## *Tabernacl, Llanfyllin*

**AILAGOR**
Rydym yn falch iawn o gael ailddechrau addoli yn y capel, gan ddechrau gydag Oedfa Deuluol ar Fedi'r 6ed. Wrth gwrs, bydd yn rhaid dilyn y canllawiau a rheolau y Llywodraeth ac mae'n siŵr y bydd yn brofiad od o beidio cael canu mawl yn yr oedfa.

**DIOLCH**
Bu adeiladwyr yn trwsio'r nenfwd o dan y galeri yn ystod mis Awst, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Margaret ein gofalwraig am ei gwaith glanhau ar eu holau.

**PRIODAS RUDDEM**
Llongyfarchiadau i Roy ac Anwen Griffiths ar achlysur dathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol. Gobeithio iddynt fwynhau dathliad bach yng nghwmni'r wyrion bach, Gwenllian a Tegid a phob dymuniad da am lawer blwyddyn arall o hapusrwydd i'r ddau.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad at Robin a Mona Hughes wedi i Robin golli ei chwaer, Ann, oedd yn byw ym Mhwllheli. Cofion atynt ar yr adeg anodd yma.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

## YNYS PATMOS

Ar ddechrau Datguddiad Ioan, llyfr olaf y Beibl, dywed yr awdur "yr oeddwn ar yr Ynys a elwir Patmos". Gŵr wedi ei alltudio yno oedd Ioan am bregethu'r Efengyl; ysgrifennai i galonogi eglwys a oedd yn wynebu cyfnod o erlid creulon a barbaraidd o gyfeiriad yr Ymerawdwr Rhufeinig Domitian. Perthyn Patmos (8 milltir o hyd a 4 milltir o led) heddiw i wlad Groeg yn y Môr Aegeaidd ac mae'n bwysig fel safle pererindod Gristnogol. Mae mynachlog o'r unfed ganrif ar ddeg wedi ei gysegru i Ioan yn edrych lawr dros y bryn lle saif y brifddinas Hora. Gwelir hefyd yr ogof lle y dywedir i Ioan ysgrifennu ei Ddatguddiad ac mae dau fynach o hyd yn byw mewn celloedd bychain uwchben y lle. Disgrifir Patmos heddiw fel ynys gysegredig, hardd ac oherwydd ei safle cymharol ddiarffordd, yn baradwysaidd. Canodd rhai o'n beirdd i'r ynys hon ac yn eu mysg Richard Foulkes Edwards (Rhisiart Ddu o Wynedd) a enillodd Gadair Eisteddfod Llandudno am yr Awdl "Ioan yn Ynys Patmos". Ar nodyn ysgafn rwy'n hoff o englyn y bardd William Thomas Edwards (Gwilym Deudraeth) o Benrhyndeudraeth. Gorsaf feistr Tan y Bwlch (Rheilffordd Ffestiniog) oedd cyn cael ei symud gan y cwmni i stesion ddiarffordd yn y Dduallt neu Rhosllyn lle cafodd fyw yn "Dduallt House". Yn unigrwydd y lle hwn y cyfansoddodd yr englyn isod sy'n dangos ffraethineb ei gymeriad a'i ddawn fel englynwr bachog -

Ciciwch fi i werthu cocos – neu hyrddiwch
Fi i Iwerddon i aros.
Waeth ple, i rywle,
Put me in Ynys Patmos!

## "YR YNYSOEDD A'R RHAI SY'N TRIGO YNDDYNT"

O Eseia 42 y daw y geiriau uchod lle mae galwad ar yr holl fydysawd i ganu clod i Dduw. Enwir y ddaear a'r môr a'r ynysoedd – ac ynysoedd yw fy thema yma. Yr hyn a'm hysgogodd i sôn am ynysoedd oedd nofel atgofus "The Lost Lights of St. Kilda" gan Elisabeth Gifford a ymddangosodd ym mis Gorffennaf ac a ddarllenais yn ystod y cloi mawr. Mae wedi ei lleoli ar un o ynysoedd anghysbell yr Alban sef St. Kilda ac yn sôn am yr ynyswyr hyd at 1930 pan ymadawodd y criw bach olaf o'r ynys i'r tir mawr.

Chwaraeodd ynysoedd ran fawr yn fy mywyd i a'r teulu am flynyddoedd yn ystod pob Awst gan inni ymweld â nifer o ynysoedd bach a mawr, rhai yn boblog ac eraill yn dawelach ac anghysbell. Cawsom fudd o ddefnyddio llawlyfrau'r nofelydd poblogaidd Leslie Thomas, yn enedigol o Gasnewydd megis "Some Lovely Islands" ac "A World of Islands".

Ond dechreuodd yr ysfa ynysol yn sicr pan oeddwn yn ymgeisydd am yr offeiriadaeth yng nghanol chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Warden yr Ymgeiswyr ar y pryd yn Esgobaeth Bangor oedd y Canon R. Glyndwr Williams a drigai yn Hostel yr Eglwys ym Mangor ar ôl iddo dreulio saith mlynedd egnïol iawn yn fy mhlwyf genedigol, sef Llandinorwig. Trefnai i griw ohonom dreulio wythnos gyda'n gilydd a olygai benwythnos cyfan ar Ynys Enlli ac yna rai dyddiau yn ymweld ag amrywiol blwyfi yn Llŷn. Ein harweinydd oedd mynach Ffransisgaidd sef y Tad Silyn, gŵr ysbrydol, hynaws, tirion, ac yn Gymro Cymraeg i'r carn. Cymry Cymraeg da oeddem ninnau oll fel criw ac yn asio'n arbennig gyda'n gilydd. Yn ystod ein penwythnos ar Enlli roeddem yn ymarfer drama gyda gogwydd Cristnogol iddi ac ar ôl dychwelyd i'r tir mawr roeddem yn ei pherfformio bob nos mewn gwahanol Eglwysi ar y Penrhyn. Rhai atgofion o Enlli oedd sŵn yr adar, y distawrwydd gafaelgar a hyd heddiw, am ryw reswm, arogl y calor gas a ddefnyddid! Englyn Evan G. Hughes (Ifan y Fachwen) Rhoshirwaun i Enlli a hoffaf yn fawr -

Ynys werdd lle huna saint; – gorau llwch
Sydd gerllaw ei chwfaint;
Er nad yw fawr, fawr o faint
Mae hanes yma a henaint.



## Sgwrsio am Ddod Allan o'r Cyfnod Cloi




Er ein bod wrth gwrs yn edrych ymlaen at amser gwell pan fydd llai o gyfyngiadau ar ein bywydau, rhaid inni fod yn amyneddgar o hyd! Mae rhai capeli wedi gallu ailagor, o leiaf yn rhannol, eraill heb fod yn barod eto, a llawer ohonom yn ysu am gael cyd-addoli yn ein capeli pan fydd hi'n bosibl.

I helpu pobl yn y cyfnod hwn, mae taflen arbennig wedi'i chynhyrchu gan Gymuned Ymarfer Ysbrydolrwydd y Drydedd a'r Bedwaredd Oes dan adain Rhwydwaith Dysgu Gogledd Orllewin Lloegr a Manaw. Da o beth yw sgwrsio â'n gilydd gan rannu ein hofnau a'n breuddwydion ac mae'r daflen yn awgrymu gwahanol gwestiynau y gallwn eu gofyn. Nid oes lle i'w hatgynhyrchu'n llawn yma ond mae ar gael yn Gymraeg gan Delyth 07799 902576 daviesd@methodistchurch.org.uk.

# Diolch yw ein rhan

## *gan y Parchedig Gwilym O. Jones*

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai y bydd llawer yn cofio amdanynt am fwy nag un rheswm. Cofiwn amdanynt oherwydd bod llawer o farwolaethau wedi digwydd, gormod o lawer. Mae'r byd drwyddo wedi cael ei effeithio oherwydd yr afiechyd difrifol yma, a chyfanswm y marwolaethau drwy'r byd yn cynyddu o hyd.

Maent wedi bod yn fisoedd sydd wedi effeithio ar fusnesau lawer, gan achosi i lawer ofyn a fydd hi'n werth ailagor eto. Bu'r strydoedd yn wag. Rhaid gofalu peidio â mynd yn rhy agos at rywun arall a rhaid gwisgo mwgwd pan fyddwn yn mynd i mewn i unrhyw siop.

Er mor anodd fu peidio â chael mynd allan oni bai fod gwir reswm am hynny, mae llawer o bobl wedi bod yn gymwynasgar tu hwnt. Darllenais y sylw yma mewn papur dyddiol un diwrnod: "Os yw'r strydoedd yn wag o bobl, nid ydynt yn wag o garedigrwydd."

Yn wyneb y ffaith na allaf fi fel llawer un arall ymweld â'm haelodau, rwyf yn treulio amser yn rhoi galwad ffôn iddynt. Gwelais newid mawr yn ddiweddar yn yr ymateb a gefais gan rai. Ar y dechrau nid oeddent yn poeni rhyw lawer nad oes gwasanaeth yn y capel ar y Sul, ond erbyn hyn clywaf lawer o bobl yn gofyn, "Pa bryd bydd y capel yn agor eto? Rydyn ni'n gweld eisiau gwasanaeth yn y capel". Wel, amser a ddengys, ond yn y cyfamser mae gennym achos i ddiolch ein bod ni yma o hyd, a bod gennym rywbeth i edrych ymlaen ato. Bydd llawer yn teimlo'n wahanol, a da o beth yw i ni gofio hynny.

Diolch yw ein rhan. Boed ynom yr awydd i fod yn barod i ailafael yn ein dyletswyddau eto.



# Cenhadaeth Sanclêr

## *gan y Diacon Jonathan Miller*

*[Ers Medi 2019, mae'r Diacon Jon yn gweithio o dan gynllun Yr Eglwys heb Furiau yn ardal Sanclêr, Sir Gaerfyrddin, gan geisio creu cymuned Gristnogol gynhwysol heb ffiniau na rhwystrau, ac yn wir heb adeilad eglwysig traddodiadol.]*

Pan ddechreuais fy apwyntiad newydd yn Sanclêr dewisais ddechrau yn araf. Ymwelais â busnesau lleol, galwais heibio'r ysgol ac ymunais â chlwb rhedeg lleol i wneud "soffa i 5K."

Fel ffordd i ddod i adnabod pobl a busnesau mi wnes i greu Llwybr Celf y Geni o amgylch y dref, gyda 10 darn o gelf yn dangos gwahanol rannau o stori'r Geni.

Ar ôl Nadolig hwyliog gyda gwasanaethau carolau cymunedol, gwasanaethau Nadolig a gwahanol ddigwyddiadau, dechreuais y Flwyddyn Newydd gyda threfn o ymweliadau rheolaidd â chaffis, siopau a busnesau yn y dref. Gwisgais fy nghrys clerigol ac eistedd mewn caffi prysur am ychydig oriau gan sgwrsio â phwy bynnag oedd yno.

Datblygais gyfeillgarwch gyda staff a pherchennog Mol's Bistro a dechreuais wneud cacennau heb glwten yn y Bistro. Y cynllun oedd dechrau "Capel Cinio" yn y Bistro a phrynhawniau crefft ar ôl mis Mawrth, ond rhoddwyd stop ar hyn oll gan y coronafeirws.

Pan ddaeth y Cyfnod Clo, dechreuais bostio ymarferion ysbrydol ar Facebook ac mi wnes i greu tudalen Facebook o'r enw "Yr Eglwys heb Furiau." Ar y dudalen rydw i'n postio gweddïau, Lectio Divina a Visio Divina, fideos, pregethau a myfyrdodau.

Rydw i'n gobeithio, pan gaiff y cyfyngiadau eu codi, y bydd modd adeiladu ar bopeth rydw i wedi bod yn ei wneud. Rydw i'n credu bod y neges a roddodd Duw i bobl Israel trwy'r proffwyd Eseia yn neges i ninnau hefyd.

> Gwna fwy o le i dy babell,
> a lledu'r llenni lle rwyt ti'n byw!
> Estyn nhw allan! Paid dal yn ôl!
> Gwna'r rhaffau'n hirach, rho'r pegiau'n sownd.
> Byddi'n ymledu allan i bob cyfeiriad!
> Bydd dy ddisgynyddion yn meddiannu gwledydd eraill,
> ac yn byw mewn dinasoedd gafodd eu gadael yn
> adfeilion. (Eseia 54:2-3 beibl.net)





# O’r Pen Yma gan Angharad Tomos

Mae’n Hydref, a dwi wedi cael llond bol. Da chi’n gweld, ron i wedi meddwl y byddai pethau yn well erbyn hyn. Dwi wedi cadw at y rheolau, wedi cadw pellter, wedi gwisgo mwgwd, heb dreulio noson oddi cartref – a dwi’n disgwyl gwobr. Ron i’n meddwl erbyn yr Hydref y byddai pethau Yn Ôl Fel Roedden Nhw.

Ac am nad ydi petha fel ron i wedi ei ddisgwyl, dwi’n flin. Dwi’n flin fod y rheol dwy feter yn dal i fodoli, dwi’n flin na chawn fynd i dai y naill a’r llall na rhannu car. Dwi’n flin fod pethau yn dal yn ansicr. Ac yna, dwi’n cywilyddio. Y gair dwi’n ceisio canolbwyntio arno yw DIGON. Yr ydw i *wedi* cael digon, a mwy na digon, ac am hynny dylwn fod yn ddiolchgar. Mae gen i do uwch fy mhen, mae gen i iechyd, mae gen i fannau hyfryd i fynd am dro iddynt a dydw i ddim yn brin o fwyd. Faint o bobl yn y byd fedr ddweud hynny?

Wrth gwrs y byddai’n dda gweld popeth yn normal unwaith eto, ac ail gychwyn cymdeithasau’r gaeaf, ond yr hufen ar y gacen ydi hynny. Ac mae’n ddigon posib y byddem wedi cael rheini tase pawb wedi cadw at y rheolau, stopio teithio a hedfan dramor a bod braidd yn hunanol. Felly gawn ni beidio beio Duw am gamgymeriadau dynol?

Wrth fyfyrio ar y gair ‘Digon’ daeth adnod i fy meddwl, ‘Digon i ti fy ngras i: canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid’. Yn dilyn yr adnod hon, mae rhestr o bethau anodd – amarch, bod mewn angen, erlidiadau, cyfyngderau ... fedra i ddim cwyno am yr un o’r rhain. Cwbl dwi’n ei ddioddef yw diffyg gweithgareddau gyda’r nos dwi’n eu cysylltu efo’r hydref ac



sy’n byrhau’r gaeaf. Yna dwi’n darllen y geiriau ‘canys pan wyf wan, yna yr wyf yn gadarn.’

Wnaiff y tipyn dioddef ‘ma ddim drwg inni. Ambell waith mae’n fuddiol bod mewn gwendid. Mae hynny yn peri inni werthfawrogi be sy’n bwysig mewn bywyd. Bob blwyddyn arall, dwi wedi nodi dyddiadau’r Gymdeithas Hanes, cymdeithas y Capel, Gŵyl Diolchgarwch, a’r Sioe Hydref yn fy nyddiadur gan eu cymryd yn gwbl ganiatаol. Fel dwi wedi ei wneud efo oedfa’r Sul. Rŵan nad ydyn nhw’n cael eu cynnal, dwi’n sylweddoli eu gwerth, ac mae hynny yn beth da.

Os ydi’r Cyfnod Clo wedi dangos rhywbeth inni, mae wedi peri inni fod yn ddiolchgar a chyfri’n bendithion – am y pethau lleiaf. A’r pethau lleiaf ydi’r pethau mwyaf gwerthfawr, dydych chi ddim yn cytuno?



# Wrth fynd heibio

## *gan William H. Owen*

Adeg wynebu ffeithiau a’r caswir yw hi erbyn hyn. Mae’r anfadwch wedi bod yn ein poeni er mis Mawrth a than yn ddiweddar iawn nid oedd yr un capel anghydffurfiol wedi agor ei ddrysau ers hynny. Rheolau yw rheolau, neu ganllawiau yw canllawiau, ac nid oedd neb am eu torri mewn achos o fywyd a marwolaeth.

Wrth i ni gyfarwyddo â’r byd rhyfedd a grëwyd gan Covid-19 dechreuodd Llywodraeth Cymru lacio rhywfaint ar y rheolau a daethom ychydig yn fwy hy wrth fynd o gwmpas ein pethau – rhai ohonom ni o leiaf. O’r diwedd daeth sôn am gyfarfod mewn capeli, os nad i agor yn llawn fel cynt, i geisio rhoi pethau ar waith fel bod modd i gynulleidfa ddod at ei gilydd mewn man o addoliad unwaith eto.

Wrth gwrs, dyma lle mae brawddeg gyntaf hyn o lith yn cyfri. Os yw swyddogion ein haddoldai yn barod i fentro – a rhoi’r sudd puro dwylo wrth y drysau a gosod pob canllaw arall y mae’n rhaid ei ddilyn – faint fydd yn barod i ymuno yn y gwasanaeth? Prin oedd y cynulleidfaoedd yn y mwyafrif o addoldai cyn i’r pla ein taro, mae’n amhosibl celu hynny. Yn wir mae ystadegau gwahanol enwadau yn dangos ers blynyddoedd fod yr aelodaeth yn dirywio ac mae’n rhaid cofio nad yw nifer yr aelodau a’r mynychwyr yn cymharu o gwbl.

Sut mae hi’n mynd i fod wrth i’r drysau agor? Dau ateb sydd wrth feddwl am y gynulleidfa: mae hi’n mynd i wella neu waethygu. Wrth ddewis rhwng y ddau atebiad mae’n anodd gweld arwyddion ei bod yn mynd i wella. Yn besimistaidd iawn ni allaf ddarogan dim ond difancoll er mor anodd yw cydnabod hynny. Gall y capeli oedd eisoes yn bustachu byw orfod wynebu’r diwedd, fel mae cannoedd wedi gwneud ar hyd y blynyddoedd, ac mae’n bosibl y medr y rhai ychydig mwy llewyrchus eu haelodaeth a’u modd oroesi am gyfnod pellach.

Oes, mae angen wynebu’r ffeithiau a’r caswir erbyn hyn. Mae effeithiau’r pla yn bellgyrhaeddol.

Sôn am gyfraniad *Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol* yr oeddwn y tro diwethaf. Daeth y rhaglenni i ben yn ddisymwth, heb air o eglurhad ar y sgrin mai Oedfa’r Parchedig Huw George fyddai’r olaf ohonynt, o fynwent capel Rhydwilym, Sir Benfro. Roedd yn rhaid disgwyl nes i’r cylchgrawn *Golwg* gael llythyr gan gwynwr o Lundain cyn i’r sianel ymateb.

Prin fod ei gynnwys yn codi calonnau. Yr awgrym cryf ynddo oedd na fyddant yn trafferthu mwyach dod ag *Oedfa* i’n haelwydydd, am fod gan y capeli hawl i agor unwaith yn rhagor. Ac fel yna y daeth y tymor ewyllys da i ben! Y siwgr ar y bilsen oedd y byddent “yn darlledu Oedfaon ar achlysuron arbennig fel Diolchgarwch, Pasg ac ati y flwyddyn nesaf” gan ailystyried Oedfaon eto ar y Sul pe bai ail don o’r anfadwch. Nid oedd gair o sôn, gyda llaw, sut y maent am ddygymod â *Dechrau Canu Dechrau Canmol* gyda’r cyfyngiadau pellter yn parhau. Siawns na fyddwn yn gorfod dal i wylio ailddarllediadau am flwyddyn gron?

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



## BOD YN BAROD

Gobeithio y bydd y Golygyddion yn ddigon trugarog i dderbyn yr erthygl hon, a minnau ddiwrnod yn hwyr yn ei llunio. Mor anodd yw i greadur y funud olaf newid arfer oes. Ond mor wahanol oedd hi ddoe. Fi oedd y cyntaf i gyrraedd y cyfarfod. Wrth i'r awr benodedig nesáu, doedd dim golwg o neb arall; ac fe wawriodd arnaf fy mod – am y tro cyntaf erioed o bosibl – wythnos yn gynnar! Os gwell hwyr na hwyrach, gwell fyth fuan na hwyr! Does ond gobeithio nad aiff y cyfarfod yn angof gennyf ymhen yr wythnos.

Roeddwn yn gwbl ddiesgus gan fod dyddiad ac amser y cyfarfod wedi eu nodi'n gywir yn fy nyddiadur. 'Ond am y dydd hwnnw a'r awr,' medd Iesu Grist wrth gyfeirio at gyfarfod llawer pwysicach, 'ni ŵyr neb, nac angylion y nef, na'r Mab, neb ond y Tad yn unig' (Mathew 24:36). Dyna'r dydd y bydd yr Arglwydd Iesu Grist yn dychwelyd yn ei lawn ogoniant; a dyna'r cyfarfod pwysicaf y bydd yr un ohonom yn rhan ohono, pan ddaw'r Iesu i gymryd ei bobl ato'i hun. 'Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi' (Ioan 14:3).

Fedrwn ni ddim nodi'r dydd na'r cyfarfod mewn dyddiadur, oherwydd 'ni ŵyr neb ... ond y Tad' pryd y bydd. Nid mater o fod yn gynnar na hwyr fydd hi, ond o fod yn barod. Dyna a bwysleisir gan Iesu Grist (a chan yr apostolion wrth iddynt hwythau sôn am y dydd hwn). 'Byddwch barod, oherwydd pryd na thybioch y daw Mab y Dyn' (Mathew 24:44). I Paul, bod yn barod yw 'gwisgo amdanom ffydd a chariad yn ddwyfronneg, a gobaith iachawdwriaeth yn helm' (1 Thesaloniaid 5:8). Dyna'i ystyr i ninnau.

# Yn yr un cwch?

***gan y Parchedig Pam Cram***



Ym mis Awst, cafodd fy ngŵr Alan a finnau y fraint o gymryd rhan mewn cyfarfod Zoom gydag aelodau o staff 'All We Can', ein helusen cymorth a datblygiad enwadol, a chynrychiolwyr o ddau o'i phartneriaid tramor. Roedd tua 28 yn cymryd rhan i gyd, rhai a oedd wedi gweithio dramor ar ran yr Eglwys Fethodistaidd, eraill fel ninnau yn gefnogwyr tymor hir All We Can (a MRDF cyn hynny).

Fe glywon ni am waith sydd yn mynd ymlaen yn India a Zimbabwe – y gwaith a'r cynlluniau a oedd ganddynt cyn Covid-19, ac effaith y pandemig. Yn India, partner All We Can yw mudiad READ sy'n gweithio yn ardal Odisha, sef talaith ar yr arfordir yn y dwyrain, i'r de o Kolkata. Mae canran uchel o'r bobl yn yr ardal yn weithwyr mudol a/neu achlysurol. Ers Mawrth 25 mae'r wlad wedi bod o dan gyfyngiadau llym oherwydd Covid, gyda llefydd gweithio ar gau a'r gweithwyr mudol yn ei chael hi'n anodd dychwelyd adref. Mae'r llywodraeth yn India yn rhoi rhywfaint o gymorth (nwyddau golchi a bwyd), ond does dim digon i bawb a dydy'r manylion, cyngor a chymorth ddim yn cyrraedd yr ardaloedd mwyaf gwledig na'r bobl fwyaf bregus. Mae gwaith arferol READ yn amhosib, ond maent wedi bod wrthi yn cyhoeddi negeseuon am lendid o gefn lori gyda chorn siarad; ac yn dosbarthu parseli bwyd.

Yn Zimbabwe, wrth gwrs, mae'r sefyllfa wedi bod yn anodd yn wleidyddol ac yn gymdeithasol ers blynyddoedd. Mae'r pandemig wedi gwneud pethau yn waeth byth. Mae'r 'lockdown' yn llym iawn ac mae'n amhosib i bobl gyrraedd y marchnadoedd er mwyn gwerthu na phrynu. I bobl yn yr Affrig mae ysgwyd llaw yn bwysig yn ddiwylliannol, ac mae llawer yn ystyried golchi dwylo yn wastraff o ddŵr. Felly mae'n anodd perswadio pobl i dderbyn y negeseuon am lendid a phellter cymdeithasol. Y broblem fwyaf oll – cyn Covid oherwydd sychder, ond yn arbennig nawr – yw prinder bwyd, gyda llawer o deuluoedd yn cael dim ond un pryd o fwyd y dydd.

Weithiau mae pobl yn dweud ein bod ni i gyd yn yr un cwch ynglŷn â'r pandemig ond dydy hynny ddim yn wir. Ar yr un môr tymhestlog efallai, ond mewn cychod amrywiol – rhai mewn llongau cymharol gysurus, eraill mewn cychod anniogel iawn. Yr hyn oedd yn amlwg yn ein cyfarfod oedd ymroddiad y gweithwyr yn India a Zimbabwe, a'u gwerthfawrogiad o'r bartneriaeth gydag All We Can, gan gyfeirio at hyblygrwydd yr elusen yn arbennig yn wyneb y sefyllfa bresennol wrth i bopeth newid mor gyflym ac mor sylweddol.

Cwpl o ddiwrnodau wedi'r cyfarfod derbyniais adroddiad mudiad arall sy'n gweithio mewn maes tebyg. Yn eu dogfen nhw roedd sylw perthnasol iawn, sef bod yr ardaloedd lle mae grwpiau i'w cael fel y rhai y soniwyd amdanynt uchod yn India a Zimbabwe, llawer mwy gwydn nag ardaloedd eraill am fod yna rwydweithiau a systemau. Mae'n golygu bod cyfathrebu, a dosbarthu nwyddau, lawer haws. Rhaid cofio hynny wrth i ni gefnogi All We Can, Cymorth Cristnogol ac yn y blaen yn eu gwaith, nid dim ond yn ystod argyfwng ond drwy'r amser.





# TUDALEN Y PLANT


Dyma stori o Lyfr yr Actau yn y Testament Newydd. Mae'r llyfr yma yn dweud wrthym ni am y pethau wnaeth disgyblion Iesu Grist ar ôl i Iesu atgyfodi ac esgyn i'r nefoedd. (Actau 3:1-10 beibl.net)

**Lluniau: www.lambsongs.co.nz**



1

Un diwrnod, am dri o'r gloch y p'nawn, roedd Pedr ac Ioan ar eu ffordd i'r deml i'r cyfarfod gweddi. Wrth y fynedfa sy'n cael ei galw 'Y Fynedfa Hardd' roedd dyn oedd ddim wedi gallu cerdded erioed. Roedd yn cael ei gario yno bob dydd, i gardota gan y bobl oedd yn mynd a dod i'r deml. Pan oedd Pedr ac Ioan yn pasio heibio gofynnodd iddyn nhw am arian.



2

Dyma'r ddau yn edrych arno, a dyma Pedr yn dweud, "Edrych arnon ni." Edrychodd y dyn arnyn nhw, gan feddwl ei fod yn mynd i gael rhywbeth ganddyn nhw. "Does gen i ddim arian i'w roi i ti," meddai Pedr, "ond cei di beth sydd gen i i'w roi. Dw i'n dweud hyn gydag awdurdod Iesu y Meseia o Nasareth – cod ar dy draed a cherdda."



3

Yna gafaelodd yn llaw dde y dyn a'i helpu i godi ar ei draed. Cryfhaodd traed a choesau'r dyn yr eiliad honno, a dyma fe'n neidio ar ei draed a dechrau cerdded!



4

Aeth i mewn i'r deml gyda nhw, yn neidio ac yn moli Duw. Roedd pawb yn ei weld yn cerdded ac yn moli Duw, ac yn sylweddoli mai hwn oedd y dyn oedd yn arfer eistedd i gardota wrth 'Fynedfa Hardd' y deml. Roedden nhw wedi'u syfrdanu'n llwyr o achos beth oedd wedi digwydd iddo.

## Gweddi

Ein Tad yn y nefoedd, diolch
i Ti am bawb sy'n gweithio'n galed
er mwyn gwella pobl sâl a gwneud bywydau
pawb yn well. Amen.